**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**13 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 13 Mehefin 2017.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Cindy Hinds, Ray Hughes, Joe Johnson, Colin Legg a Vicky Perfect

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Richard Lloyd (yn lle Dave Hughes) a Mike Reece (yn lle Paul Shotton)

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; a'r Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad

**CYFRANWYR:** Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Rheolwr Cludiant; Rheolwr Gwastraff a Gwasanaethau Ategol; a Rheolwr Gofod y Ffyrdd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Bu i'r Hwylusydd atgoffa'r Pwyllgor y penderfynodd y Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mai'r grŵp Annibynnol Newydd ddylai enwebu Cadeirydd y Pwyllgor.

Enwebodd y Cynghorydd Haydn Bateman y Cynghorydd Ray Hughes. Eiliwyd hyn yn briodol a chafodd ei gymeradwyo yn dilyn pleidlais ar y mater. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ray Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Hughes weddill y cyfarfod)

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Mike Reece y Cynghorydd David Evans fel Is-gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn yn briodol a chafodd ei gymeradwyo yn dilyn pleidlais ar y mater. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd David Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 4. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017 wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 54: Cofnodion y cyfarfod blaenorol – Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin fod y Pwyllgor yn dal i aros am ddadansoddiad o achosion gorfodi cynllunio, a bod y cam gweithredu hwn yn aros i gael ei gyflawni ers peth amser. Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) bod eitem ar Orfodi wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Yn ogystal, bydd gwaith sy'n cael ei wneud ar argymhellion drafft adroddiad archwilio ar Orfodi yn galluogi Aelodau lleol i weld statws yr achosion o fewn eu wardiau. Ar gais y Cynghorydd Dolphin, darparodd y Prif Swyddog enwau'r pedwar Swyddog Gorfodi a gyflogir ar hyn o bryd gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 10.05am)

…………………………
**Cadeirydd**